# DAFYDD, RICHARD WILLIAM (fl. 1740-52), cynghorwr Methodistaidd

**Enw:** Richard William Dafydd
**Rhiant:** William Dafydd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cynghorwr Methodistaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Brodor o Landyfaelog, Sir Gaerfyrddin, a brawd i David Williams, Llyswyrny. Dywedir iddo bregethu ym Môn yn 1740 a chael triniaeth arw yno. Gwyddys yn sicr ei fod yn cynghori yn 1742, a phenodwyd ef yn sasiwn Llanddeusant, 1743, i arolygu seiadau yn Sir Gaerfyrddin. Cymerth ran yng ngwrthryfel John Richard Llansamlet, yn erbyn trefniadau'r sasiwn yn 1743, ac ysgrifennwyd ato i'w ddarbwyllo gan Whitefield a Howel Harris. Penodwyd ef yn ymwelydd seiadau Gorseinon a Phenbre yn 1744. Gwyddys ei fod yn Llandyfaelog yn 1744, a chyfarfu Thomas William ag ef yno yn 1747. Cawn ef yn pregethu yn Nhrefeca yn 1752 a dyna'r olwg olaf arno. Ymddengys iddo ymsefydlu yn Abertawe, a bu'n gefn i'r seiat fore yn y dref.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


H. Bevan, *Ychydig hanes neu goffadwriaeth am amryw bethau neillduol a gymmerasant le ymhlith corph y Methodistiaid Calfinaidd yn ac o'u dechreuad, sef oddiar yr amser y daeth Mr. Howel Harries i bregethu yn ei droion cyntaf i amryw barthau o Sir Forganwg a'i chyffiniau* (Abertawe 1838), 7

John Pritchard, *Methodistiaeth Môn* (1888), 23

*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), i, 115; iii, 29

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 212

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf, 1738–1852* (1929), 224

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, xxi, 74; xxv, 52: xxvii, 15, 140

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body ... to the close of the year 1850* (1907), 29

T. Beynon, *Treftadaeth y Cenfu a Maes Gwenllian* (1941), 121


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734306


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu